# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Brondesbury Lodge**

**Brondesbury Lodge**
**Heol Derw**
**Aberteifi**
**SA43 1NH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

23/5/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Brondesbury Lodge

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion â gofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Brondesbury Lodge Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 32 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Mewnosod â llaw<br>29/12/2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae tîm rheoli proffesiynol a sefydlog yn ymdrechu i ddatblygu'r gofal a chymorth a ddarperir i'r bobl ble bynnag y bo'n bosib. Mae'r bobl yn derbyn gwasanaeth da gan reolwr gwybodus a thîm staff ymroddgar. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymgysylltu â'r gwasanaeth ac yn darparu goruchwyliaeth o'r gwasanaeth.

Mae iechyd a llesiant unigol y bobl yn bwysig i'r rhai sy'n darparu'r gofal a chymorth. Mae'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a'u perthnasau wedi cadarnhau hyn. Mae angen gwneud gwaith i sicrhau bod anghenion unigol y bobl a chanlyniadau llesiant yn cael eu dogfennu'n gywir a bod y bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys wrth asesu ac adolygu eu gofal.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mae mesurau rheoli ac atal heintiau priodol ar waith yn unol â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Llesiant

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn. Ceir tystiolaeth o hyn yn yr ymateb i'r arolygon sicrhau ansawdd yn ogystal ag adborth a gawsom gan y rhai y gwnaethom siarad â nhw a pherthnasau. Er cafodd y gweithgareddau arferol a oedd yn digwydd yn Brondesbury eu cwtogi yn ystod y pandemig, mae'r staff a'r cydlynydd gweithgareddau wedi gweithio'n galed i sicrhau bod llesiant y bobl yn dal i gael ei hybu. Mae camau ar y gweill i ailgyflwyno gwasanaeth crefyddol ar y Sul a gweithgareddau awyr agored ac i ailsefydlu grŵp Cyfeillion Brondesbury. Gwerthfawrogwyd y parti yn yr ardd i ddathlu jiwbilî'r frenhines yn fawr gan y bobl, eu perthnasau a'u ffrindiau. Mae'n amlwg bod dewisiadau'r bobl yn cael eu parchu ac mae'r gwasanaeth yn rhan fawr iawn o'r gymuned.

Darperir y Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg: mae hyn yn golygu bod yn rhagweithiol wrth ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg heb i bobl orfod gofyn amdano. Clywsom sgyrsiau a chanu yn Gymraeg, ac roedd gwybodaeth ar gael yn Gymraeg. Gall y bobl dderbyn gofal a chymorth yn yr iaith o'u dewis.

Yn gyffredinol, mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth. Fodd bynnag, mae angen diweddaru'r polisi diogelu i sicrhau ei fod yn unol â deddfwriaeth gyfredol a gweithdrefnau diogelu lleol. Mae'r staff gofal yn cydnabod eu cyfrifoldebau personol o ran cadw'r bobl yn ddiogel. Nid yw pob aelod o staff yn ymwybodol o ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru a rhifau ffôn cyswllt y cyrff perthnasol. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn chwythu'r chwiban, er bod angen diweddaru'r polisi eto. Mae proses recriwtio gadarn.

Gall y bobl ddewis sut maent yn treulio'u hamser. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom rai pobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau tra oedd eraill yn dewis gwylio'r teledu. Mae yna wahanol ardaloedd lle gall y bobl ddewis eistedd ac mae'r "lolfa werdd" fach yn disgwyl cael ei hadnewyddu. Dywedodd y cogydd wrthym ei fod yn hapus i ddarparu ar gyfer chwaeth y bobl a'i fod yn gwybod am hoff bethau a chasbethau'r bobl. Fodd bynnag, nid oes dewis bwydlen ddyddiol yn cael ei arddangos; yn hytrach, gall y bobl ddweud os nad oeddent yn hoffi'r bwyd amser pryd. Gwelsom y bobl yn cael cynnig dewisiadau eraill ar ôl iddynt beidio â bwyta'r prif bryd. Byddai'r profiad amser bwyd yn cael ei wella trwy ofyn ymlaen llaw er mwyn i'r bobl allu bwyta gyda'i gilydd ar yr un pryd. Mae cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol amser bwyd bellach wedi dod i ben.

Ar y cyfan, mae'r cofnodion gofal yn adlewyrchu anghenion a hoffterau'r bobl. Fodd bynnag, mae angen rhagor o fanylion ynglŷn ag unrhyw gymorth penodol sydd ei angen ar unigolion a sut maen nhw a/neu eu cynrychiolwyr yn rhan o'r broses o gynllunio ac adolygu gofal.

Mae tîm rheoli cryf sefydledig yn Brondesbury. Mae'r rheolwr yn amlwg iawn, a gwelsom ei dull tawel a'r sylw a roddodd i fanylder wrth gefnogi'r bobl. Mae ymgyrch recriwtio wedi

arwain at gyflenwad llawn o weithwyr nyrsio a gofal. Mae sefydlu, goruchwylio a hyfforddiant staff parhaus ar y gweill i sicrhau bod safonau da yn cael eu cynnal.

## Gofal a Chymorth

Roedd yr adborth gan aelodau teuluol yn gadarnhaol. Ar y cyfan, roeddent yn teimlo bod y sianeli cyfathrebu yn dda a bod y rheolwr yn ymatebol i ymholiadau. Disgrifiwyd bod y staff yn gyfeillgar ac yn ofalgar. Dywedodd y perthnasau y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn fwy na bodlon ar y gofal a'r cymorth a ddarperir a'i fod hyn yn "*berffaith*". Roeddent yn edrych ymlaen at y parti arfaethedig yn yr ardd a llacio'r cyfyngiadau ymweld yn unol â Chynllun Pontio Gofal Cymdeithasol. Ar y cyfan, mae'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar eu gofal a'u cymorth. Gwnaethant ddweud wrthym, *"Maen nhw'n gweithio'n galed"* ac *"Alla i ddim gweld bai arnynt."*

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion hylendid i leihau'r risg a berir gan heintiau. Ar ôl cyrraedd, gofynnwyd i ni ddangos prawf llif unffordd dilys a rhoesom ein manylion cyswllt. Mae'r staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol ac yn cydymffurfio â chanllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r rheolwr yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol i sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni ei rwymedigaethau ynglŷn â mesuriadau atal a rheoli heintiau. Mae polisïau a gweithdrefnau yn eu lle i gefnogi arferion da. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr yn cyflwyno canllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru i gefnogi'r pontio i normalrwydd cyn y pandemig, cyn belled ag y bo modd.

Mae'r gweithwyr iechyd a gweithwyr gofal cymdeithasol yn ymwneud â'r bobl ac mae hyn wedi'i gofnodi. Gwneir atgyfeiriadau'n brydlon at weithwyr iechyd proffesiynol fel meddygon a deietegwyr pan fydd angen. Er bod adolygiadau'n cael eu cynnal mewn modd amserol, ni chaiff gwaith dilynol ar ganfyddiadau bob amser. Aethpwyd i'r afael â hyn gyda'r rheolwr yn ystod yr arolygiad. Mae mesurau priodol ar waith ar gyfer storio, rhoi a chofnodi meddyginiaeth yn ddiogel. Mae gan staff ddealltwriaeth dda o weithdrefnau diogel i roi meddyginiaeth.

Mae lefelau digonol o staff ar waith i ddiwallu anghenion gofal y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae llesiant ac urddas y rhai sy'n dewis byw yn Brondesbury yn hollbwysig i'r tîm rheoli a gofal. Roedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y staff gofal, ac yn enwedig y cydlynydd gweithgareddau. Gwnaethom siarad â'r cydlynydd gweithgareddau a chanfod ei bod â ffocws ac yn gadarnhaol ac yn awyddus i ddilyn gweithgareddau ehangach gyda chyfyngiadau COVID-19 bellach yn dod i ben. Mae'r cydlynydd gweithgareddau yn chwarae rhan allweddol wrth gadw teuluoedd mewn cysylltiad gan ddefnyddio technoleg. Mae hyn yn cael ei werthfawrogi gan yr aelodau teuluol y gwnaethom siarad â nhw. Gwelsom grŵp bach yn cymryd rhan yng ngemau'r prynhawn a gwelsom fod y sgwrs yn ysgafn ac yn cael ei mwynhau gan y rhai a oedd yn dewis cymryd rhan. Mae rhai o'r staff yn cael hyfforddiant a sesiynau goruchwylio bellach i atgyfnerthu'r gwerthoedd hyn ac i sicrhau sylw i fanylder. Clywsom rywfaint o iaith yn seiliedig ar dasgau a diffyg ymgysylltu wrth gefnogi'r bobl gyda'u prydau bwyd. Trafodwyd hyn gyda'r rheolwr ar y pryd ac fe'i cytunodd i fynd i'r afael â'r pwyntiau hyn mewn cyfarfodydd staff a sesiynau goruchwylio.

Er bod dogfennau gofal y bobl ar waith, ychydig o dystiolaeth sydd o hoff bethau a chasbethau'r bobl i lywio'r cynlluniau hynny. Nid oes tystiolaeth ychwaith o wybodaeth yn cael ei darparu gan berthnasau am eu teulu yn cael ei defnyddio i lywio'r cynlluniau hynny. Nid yw cynlluniau gofal a chymorth personol y bobl yn cael eu llofnodi'n gyson gan y bobl na'u cynrychiolydd i ddangos tystiolaeth o'u hymgysylltiad. Nid yw cyfranogiad y bobl mewn

gweithgareddau a chanlyniadau llesiant yn cael eu cofnodi. Mae'r perthnasau y gwnaethom siarad â nhw yn awyddus i ddysgu mwy am sut y gallant gefnogi eu hanwyliaid ymhellach a byddent yn hapus i rannu gwybodaeth ymhellach. Mae hyn yn bwysig gan fod yr wybodaeth hon yn helpu i roi'r wybodaeth i'r staff gefnogi'r bobl. Byddwn yn mynd ar drywydd y pwyntiau hyn yn yr arolygiad nesaf.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn cael cymorth mewn amgylchedd cartrefol. Mae'r cartref yn ddiogel, yn gynnes ac yn lân ac mae'r bobl yn dweud eu bod yn teimlo'n gyffyrddus ac yn hapus yn byw yn Brondesbury. Mae digon o le yn yr ystafelloedd gwely ac maent wedi'u haddurno i adlewyrchu chwaeth a diddordebau'r preswylydd, gyda thrugareddau addurniadol, carpedi, llenni a chlustogau a ffotograffau. Mae gan nifer o'r ystafelloedd olygfeydd hyfryd o'r ardd a'r bwydwyr adar. Mae buddsoddiad parhaus a sylweddol i'r adeilad i sicrhau ei fod ar ei orau i ddiwallu anghenion y bobl. Mae gosod tŷ haf wedi cael ei werthfawrogi ac mae wedi cael ei ddefnyddio'n eang gan deulu a ffrindiau yn ystod rheoliadau ymweld COVID-19. Mae hyn yn golygu bod anghenion y bobl, eu dymuniadau a'u hurddas yn cael eu cefnogi gan y cynllun a'r gwasanaethau sydd ar gael yn y cartref.

Mae'r bobl yn ddiogel rhag ymwelwyr diawdurdod yn dod i mewn i'r adeilad oherwydd bod rhaid i bob ymwelydd ganu'r gloch ar flaen yr adeilad cyn cael mynediad a chofnodi ei ymweliad yn y llyfr ymwelwyr wrth ddod i mewn ac wrth ymadael.

Mae gweithdrefnau rheoli heintiau clir ar waith ac mae’r gweithwyr gofal yn defnyddio menig a ffedogau wrth ddarparu gofal personol. Mae unigolyn cynnal a chadw ar y safle, yn gwneud gwiriadau legionella a diogelwch tân ac yn mynd i’r afael â materion eraill sy’n codi o ddydd i ddydd. Nid oes rhwystrau i'r allanfeydd tân ac mae cofnodion cynnal a chadw yn dangos tystiolaeth o brofion larwm tân.

Mae'r holl ddefnyddiau sy’n destun Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002 yn cael eu storio’n gywir, yn unol â’r rheoliadau hyn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu ar waith. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cynnal ymweliadau Rheoliad 73 yn rhithwir ac yn gorfforol yn y gwasanaeth. Darparwyd copïau o adroddiadau i AGC sy'n nodi y siaredir â'r bobl a'r staff fel rhan o'i ymweliadau â'r gwasanaeth. Mae'r adroddiad ansawdd gofal yn nodi arferion da a meysydd i'w gwella. Mae yno ystod o offer monitro a chynhelir ystod o archwiliadau gan y rheolwr. Mae'r camau sydd eu hangen yn sgil yr archwiliadau hyn yn cael eu gweithredu a'u hadolygu. Cefnogir y tîm rheoli gan gynorthwyydd gweinyddol effeithlon a threfnus iawn.

Dywedodd y staff wrthym eu bod nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu parchu a'u cefnogi'n dda gan y rheolwr: "*Mae'r rheolwr yn hawdd mynd ati*" ac "*Mae hi'n gadarn ond yn deg.*" Mae'r staff yn teimlo'n hyderus y gallant siarad â'r rheolwr neu aelod o'r uwch-dîm pe bai pryder ganddynt. Mae'r staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau priodol, ac yn gallu esbonio eu cyfrifoldebau i ni o ran lleihau ymlediad COVID-19.

Mae'r cofnodion staff yn dangos eu bod yn cael cyfnod sefydlu, sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniad blynyddol. Mae'r staff yn mynychu ystod o hyfforddiant gorfodol a phenodol ac mae matrics hyfforddi'r gwasanaeth yn cadarnhau hyn. Dywedodd y staff gofal wrthym am yr hyfforddiant maent wedi ei fynychu ac roeddent yn gallu dangos dealltwriaeth o'u rôl wrth amddiffyn unigolion. Mae angen diweddaru polisïau a gweithdrefnau i gynorthwyo'r staff. Mae cofnodion recriwtio staff yn cynnwys yr holl wybodaeth a gwiriadau angenrheidiol. Mae gwiriadau cyn cyflogi yn cael eu cynnal cyn i weithwyr newydd ddechrau gweithio – mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon, adnabod ffotograffau a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Er nad yw cyfarfodydd staff wedi cael eu cynnal mor rheolaidd ag y byddai'r rheolwr wedi dymuno yn ystod y pandemig, mae'r rhain yn ailddechrau. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r gweithwyr gofal drafod eu gwaith a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y gwasanaeth, ac i'r rheolwr atgyfnerthu disgwyliadau'r gwasanaeth.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 12 | Mae angen diweddaru ac adolygu tri o'r polisïau a darparu gwybodaeth bellach amdanynt. | Newydd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/07/2022